STRATEGAETH

CHWARAEON CYMUNEDOL

2012-2020

DRAFT

CYNNWYS

1	**Rhagair**	**3**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**4**
3	**Cyd-Destun Polisi a Gwleidyddol**	**5**
4	**Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymunedol**	**7**
5	**Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Chwaraeon Cymunedol Cymru**	**8**
6	**Ymrwymiadau Chwaraeon Cymru**	**12**
7	**Mynd i'r Afael â Thlodi Plant a Hybu Cydraddoldeb drwy Chwaraeon Cymunedol**	**16**
8	**Adnoddau i Helpu gyda Thwf mewn Chwaraeon Cymunedol**	**19**
9	**Dull o Fesur**	**27**

DRAFT

1. Rhagair

Mae sector chwaraeon Cymru wedi gosod ei olygon ar gyflawni uchelgais mawr. Nid yw am ei gyfyngu ei hun bellach i ddim ond cynyddu'r gyfradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, nac i gynnydd cyson yn nifer y medalau elitaidd a enillir; yn hytrach, mae'n ymroi'n gadarn i'r cysyniad y gallwn ni sicrhau canlyniadau mwy a gwell drwy ymestyn ein dychymyg.

O'r herwydd, rydym ni wedi ymroi i gael pob plentyn, yn ddieithriad, i wirioni ar chwaraeon am oes, a sefydlu Cymru fel cenedl o bencampwyr.

Datblygwyd y strategaeth er mwyn darparu rhagor o gyfarwyddydd i'r rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu chwaraeon yng Nghymru. Gan adeiladu ar y *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon*[1], mae'n tynnu sylw at y math o amodau a dulliau gweithredu sydd eu hangen er mwyn creu cymunedau chwaraeon cryfach a mwy ffyniannus ar hyd a lled Cymru.

Ei nod yw bod yn ganllaw ymarferol i bobl sy'n gweithio yn y byd chwaraeon; gan archwilio'n fanwl a holi cwestiynau er mwyn helpu gyda chynllunio ar sail gwybodaeth, ysbrydoli ffyrdd blaengar o feddwl a chreu cyfleoedd chwaraeon safonol a chynaliadwy i bawb. Bydd ei pherthnasedd yn hanfodol bwysig.

Pobl sydd wrth galon y strategaeth. Mae'r sector chwaraeon eisiau gweld pob plentyn yn gwirioni ar chwaraeon am oes. Mae hyn yn galw am feddwl yn radical am y dull o gynllunio, cynnig a hybu chwaraeon. Mae'n rhaid i'w hapêl fod yn ehangach ac yn ddyfnach, gan lwyddo i gynnal diddordeb ac angerdd wedi i'r bobl ifanc ddatblygu i fod yn oedolion.

Mae'n rhaid i'n hymwybyddiaeth ni ar y cyd o gylch bywyd pobl, o rwystrau rhagdybiol a gwirioneddol, tlodi plant a'r gystadleuaeth gynyddol o du ffurfiau eraill ar hamdden fod yn llawer mwy. Mae'n rhaid i ni ddeall y problemau'n well a bod yn fwy rhagweithiol o ran y camau rydym ni'n eu cymryd er mwyn rhoi sylw i'r union bethau sy'n ein hatal ni rhag cyflawni ein huchelgais.

Mae gan chwaraeon allu unigryw i dynnu pobl at ei gilydd a hybu ymdeimlad o berthyn - chwaraewyr, rhieni, teidiau a neiniau, ewythrod, modrybedd, yn gwirfoddoli ac yn hyfforddi – cysyniad teuluol lle mae cefnogaeth ac anogaeth yn datgloi potensial ac yn rhoi ymdeimlad o werth. Gall cymunedau ddod yn amgylcheddau cryf, diogel ac iach, os caiff chwaraeon eu gweld a'u dathlu fel ffactor sy'n uno pobl.

Er mwyn i chwaraeon ddenu'r gynulleidfa ehangaf posibl, a chynnal cyfranogiad y gynulleidfa honno drwy gydol ei hoes, mae llwybr clir sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol ac apelgar yn gwbl hanfodol.

Gobeithiaf yn fawr y byddwch chi'n wynebu'r her ac yn ein helpu ni i gyflwyno'r profiadau gorau un; y cyfleoedd gorau un i'n cymunedau amrywiol ni.

Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd, Chwaraeon Cymru

[1] *Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru*, Chwaraeon Cymru (Ion 2011)

2. Crynodeb Gweithredol

Gan adeiladu ar y *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon,* mae'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol hon ar gyfer y sector cyfan yn ceisio rhoi dyheadau mawr ein sector ni ar waith. Mae'n amlinellu disgwyliadau ar gyfer datganoli chwaraeon a sut dylai darparwyr lleol – cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – weithredu fel bod cymunedau lleol yn gallu llunio a phenderfynu ar chwaraeon lleol.

Mae'r strategaeth yn datgan rhai disgwyliadau allweddol a bydd nifer ohonynt yn herio ffordd y sector o feddwl. A yw'r strwythurau priodol yn eu lle gennym ni? Ydym ni'n manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael – yn adnoddau dynol ac ariannol? Ydym ni'n gwneud digon i gynyddu *ac* ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon? Ydym ni'n gwneud digon i ffurfio partneriaethau gyda darparwyr eraill er mwyn datblygu chwaraeon cymunedol? Beth yw'r goblygiadau i ni o barhau â'r sefyllfa fel ag y mae?

Yn erbyn cefndir o ansicrwydd economaidd parhaus, a mwy o gystadleuaeth am amser pobl, mae'r her yn fwy fyth o ran cynyddu chwaraeon cymunedol mewn ffordd arwyddocaol.

Mae chwaraeon cymunedol, o ran ei ddiffiniad, yn faes helaeth iawn, gan gyffwrdd pob elfen bron o'r sbectrwm cyfan, o'r cam syflaen drwodd i berfformiad. Mae'r strategaeth hon yn datgan meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer Chwaraeon Cymru, fel asiantaeth ddatblygu chwaraeon y wlad, a'i bartneriaid fel cyflwynwyr allweddol mewn perthynas â chwaraeon cymunedol; meysydd lle gellid, ac y dylid, sicrhau cynnydd mawr. Mae'r blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

1. Chwaraeon a Ddiffinnir yn Lleol.
2. Clybiau Cryf Llawn Menter.
3. Yr Agenda Addysg.
4. Gweithlu Sy'n Perfformio'n Dda.
5. Cyfleusterau Addas i Bwrpas.

Mae'r strategaeth hon yn datgan yr achos dros ffocws, cydweithredu a dulliau newydd o weithio.

Yn ychwanegol at ddatgan blaenoriaethau, mae hefyd yn datgan cyfraniad penodol Chwaraeon Cymru a'i rôl o ran cyrraedd ein nodau tlodi plant a chydraddoldeb ehangach, ac mae'n darparu manylion am sut fydd cynnydd yn cael ei fesur.

Yn olaf, drwy hyrwyddo adnoddau datblygu chwaraeon penodol, mae'r Strategaeth hon hefyd yn gweithredu fel canllaw ymarferol ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno chwaraeon.

DRAFT

3. Cyd-Destun Polisi a Gwleidyddol

Cred y sector chwaraeon bod rhaid wrth newid mawr yn ein dull ni o gynllunio, datblygu a hybu cyfleoedd chwaraeon ac mae'n rhannu'r weledigaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, a fynegir yn *Dringo'n Uwch* (2005) a *Creu Cymru Egnïol* (2009):

'*Cymru egnïol, iach a chynhwysol lle mae chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yn darparu llwyfan cyffredin ar gyfer cyfranogi, cael hwyl a chyflawni, sy'n uno cymunedau a'r genedl a lle defnyddir amgylchedd eithriadol Cymru mewn ffordd gynaliadwy er mwyn gwella hyder ynom ni ein hunain.*'

Mae'r sector chwaraeon wedi ymateb i *Creu Cymru Egnïol* drwy lunio *Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru,* sy'n datgan gweledigaeth o Gymru fel cenedl chwaraeon falch, a gefnogir gan ddyhead i gael pobl plentyn i wirioni ar chwaraeon am oes ac i Gymru fod yn genedl o bencampwyr. Mae'n datgan blaenoriaethau allweddol, fel a ganlyn:



1. **Blaengaredd Mewn Chwaraeon:-**
   Mae gan Gymru sector chwaraeon sy'n croesawu cydweithredu, gan annog ffyrdd newydd o gyflwyno cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad elitaidd.

2. **Sgiliau ar gyfer Oes Mewn Chwaraeon:-**
   Mae pob plentyn a pherson ifanc yn meithrin sgiliau a hyder o oedran ifanc i fod yn llythrennog yn gorfforol drwy gymryd rhan mewn profiadau chwaraeon o safon uchel.

3. **Cymunedau Chwaraeon:-**

Mae gennym ni gymunedau sydd â chwaraeon yn rhan greiddiol ohonynt, gan gynnig cyfleoedd unedig i bob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan mewn o leiaf pump awr o chwaraeon diogel o safon uchel bob wythnos a chynnal eu cyfranogiad drwy gydol eu hoes fel oedolyn.

4. **Rhagoriaeth Mewn Chwaraeon:-**
   Rydym ni'n genedl sy'n rhagori mewn meithrin talent chwaraeon ac sy'n sicrhau llwyddiant parhaus ar y llwyfan rhyngwladol.

5. **Meithrin Gweithlu Medrus ac Angerddol:-**
   Cefnogir pawb sy'n ymwneud â chwaraeon, boed yn broffesiynol neu'n wirfoddol, i drosglwyddo eu sgiliau a'u hangerdd dros chwaraeon i bobl Cymru.

Mae dull Chwaraeon Cymru o gyflawni'r weledigaeth hon wedi'i ddatgan mewn nifer o ddogfennau strategol: Strategaeth Chwaraeon Elitaidd, Strategaeth Hyfforddi a Gwirfoddoli, Strategaeth Tlodi Plant a'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol hon.

Mae'r Strategaeth Chwaraeon Cymunedol hon hefyd yn ceisio ymateb i ddisgwyliadau'r Llywodraeth mewn perthynas â sefydliadau'r sector cyhoeddus yng nghyswllt meysydd fel cydweithredu, cyflwyno a thlodi plant.

Mae un argymhelliad allweddol yn *Adolygiad Simpson*[2] - Cytundeb, a luniwyd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn darparu sylfaen ar gyfer diwygio gwasanaethau a chreu newid ar lefel leol. Mae'n cyflwyno sawl cyfle a her ar gyfer datblygu cymunedau chwaraeon ffyniannus. Mae'n glir nawr y bydd rhaid wrth gydweithredu didwyll a chynaliadwy rhwng awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd gwasanaethau, ac i leihau'r achosion o gyflwyno darniog, dyblygu ymdrechion ac aneffeithlonrwydd.

Mae hwn yn gyfle real i wneud ein seilwaith chwaraeon ni'n fwy effeithiol. Ni ddylem gyfyngu ein ffordd o feddwl i ddim ond cydweithredu gydag awdurdodau lleol. Yn hytrach, dylem groesawu gwaith y sector gwirfoddol hefyd.

Mae'r Cytundeb yn dwysáu'r galw am i awdurdodau lleol feddwl a gweithredu mewn ffordd wahanol; ymroi'n fwy penodol i'r syniad bod ganddynt ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau o safon i'w cymunedau. Rydym yn gweld darparu cyfleoedd chwaraeon atyniadol a chynaliadwy fel rhywbeth sylfaenol yma.

Wrth i'r Strategaeth Gymunedol hon gael ei hysgrifennu, mae Chwaraeon Cymru yn ymgynghori ynghylch ei Strategaeth Tlodi Plant arfaethedig, sy'n cyfathrebu'r gyfres o ymrwymiadau mae'n eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant (crynhoir y rhain yn adrannau 5 a 6) a Chynllun Cydraddoldeb Unigol. Bydd gan y sector chwaraeon ehangach ran bwysig iawn i'w chwarae mewn helpu Chwaraeon Cymru i gyflawni ei ddyheadau yn y maes hwn.

[2] Adolygiad o Gyflwyno Gwasanaethau yn yr Awdurdodau Lleol, a gomisiynwyd gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Carl Sargeant (Mawrth 2011)

4. Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymunedol

Rydym ni eisiau gweld ymdeimlad o frys ymhlith ein staff a'n partneriaid mewn perthynas â chreu cymunedau chwaraeon ffyniannus a chynaliadwy, lle mae'r chwaraewr wrth galon ein penderfyniadau a'n camau gweithredu ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon.

Mae'n rhaid i'n gwaith ni ganolbwyntio ar gyflwyno rheng flaen; cyflwyno sy'n anelu at greu'r amgylchedd gorau a'r cyfleoedd gorau i bobl gymryd rhan, gydag ansawdd yn cael lle blaenllaw.

Er ein bod ni'n cydnabod bod gwaith cyflwyno blaengar ac uchelgeisiol yn bodoli yn rhannol, bydd rhaid ailfeddwl mewn ffordd radical ar y lefel fwyaf lleol, bob cam drwodd i gyflwyno'n genedlaethol.

Ceir cryn gonsensws mewn perthynas â beth sy'n diffinio cymuned chwaraeon, a beth yw ystyr y term:

- **cyfranogwyr wrth galon** ein penderfyniadau a'n camau gweithredu ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon;
- **hawl** plant ac oedolion **i sicrhau cyfleoedd**, a **dyletswydd** y darparwyr **i fodloni**;
- **pwysigrwydd profiadau cyntaf;**
- **athrawon hyderus** gyda **chymwysterau** priodol sydd wedi'u **datblygu'n briodol;**
- **ysgolion** sy'n **derbyn bod gan chwaraeon rym** i wella lles disgyblion mewn ffordd gadarnhaol, a hefyd gwella eu gallu i ddysgu, tyfu a datblygu fel oedolion ifanc;
- parhad cryf i **gyfleoedd chwaraeon hwyliog y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol**; cynnal cyfranogiad pobl ifanc wedi iddynt gyrraedd oedran allweddol, ac yn **seiliedig ar gydweithredu effeithiol;**
- llu o **gyfleoedd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd** ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion;
- **cynigion wedi'u moderneiddio**, fel **amrywiaethau byr ar chwaraeon**; gan ymateb i bwysau amser cynyddol a'r dewisiadau o ran ffordd o fyw sydd ar gael i boblogaeth Cymru;
- **ystod eang o ddarparwyr o safon sy'n cydweithredu'n effeithiol** er mwyn sicrhau'r buddsoddiadau gorau posibl mewn cymryd rhan mewn chwaraeon a chyn lleied ag y bo modd o ddyblygu gwastraffus;
- **croesawu technoleg yn hyderus** fel cyfrwng i ddenu cyfranogwyr a recriwtio'r gweithlu;
- **gweithlu amrywiol, angerddol a medrus**; cyflogedig a gwirfoddol, er mwyn annog a chefnogi cyfranogwyr;
- **adnabod talent** mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymunedol.

Er ein bod yn cydnabod bod gwaith cyflwyno blaengar ac uchelgeisiol yn bodoli yn rhannol, bydd rhaid ailfeddwl mewn ffordd radical ar y lefel fwyaf lleol, bob cam drwodd i gyflwyno'n genedlaethol.

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 4):

1. A ydych chi'n meddwl bod y weledigaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol yn canolbwyntio ar y meysydd priodol?
2. A oes unrhyw broblemau neu feysydd penodol sy'n haeddu ffocws arbennig?

DRAFT

5. Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Chwaraeon Cymunedol

Wrth geisio creu cymunedau chwaraeon ffyniannus, bydd rhaid i gyflwynwyr ganolbwyntio ar y 5 maes blaenoriaeth allweddol a ganlyn:

1. Chwaraeon a Ddiffinnir yn Lleol.
2. Clybiau Cryf Llawn Menter.
3. Yr Agenda Addysg.
4. Gweithlu Sy'n Perfformio'n Dda.
5. Cyfleusterau Addas i Bwrpas.

Yn sail i'r blaenoriaethau hyn mae egwyddorion a gwerthoedd:

- Dull o weithredu ac arddangos sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Ymrwymiad i gynllunio tymor hir cynaliadwy;
- Treftadaeth;
- Cydraddoldeb;
- Ymgysylltu priodol, safonol (h.y. gydag eraill a all ddylanwadu ar ein gwaith ni).

BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL	
CHWARAEON A DDIFFINNIR YN LLEOL	• Cydnabod y bydd amrywiaethau mawr rhwng un gymuned ac un arall, a beth sydd ei angen i greu amgylchedd chwaraeon ffyniannus; • Blaenoriaethu gwaith er mwyn datgan beth mae'r gymuned ei angen; seilio penderfyniadau ar olwg fanwl ar berfformiad; • Mwy o chwaraeon yn gwneud eu strwythurau'n rhai lleol; canolbwyntio ar ddatblygu camp ar lefel leol; • Pobl leol yn cael dweud sut mae chwaraeon yn cael eu datblygu a'u rhedeg yn lleol; • Ceisio barn amrywiaeth eang o bobl er mwyn creu a darparu cynnig sy'n gallu apelio at enethod, merched, pobl sy'n byw mewn tlodi a grwpiau anodd eu cyrraedd; • Cyrff rheoli'n adolygu eu haelodaeth a'u strwythur ymaelodi er mwyn ehangu apêl chwaraeon a'r bobl maent yn eu cyrraedd;
CLYBIAU CRYF LLAWN MENTER	• Clybiau aml-chwaraeon; • Datblygu pobl ifanc drwy ddull aml-sgiliau o weithredu; • Timau lluosog; • Sylfaen eang o chwaraewyr a gwirfoddolwyr; • Strwythurau rhagorol i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr; • Pob clwb yn dyblu ei aelodaeth; • Pob clwb i oedolion yn datblygu cyfleoedd iau; • Cyfleoedd hamddenol; nid cystadleuol yn unig • Cynnig hamdden anffurfiol da; • Darparu ar gyfer ystod eang o safonau; galluogi chwaraewyr i symud

	drwy sawl cam ar y llwybr chwaraeon; • Symud oddi wrth ddibyniaeth ar ambell 'chwaraewr sy'n serennu' at gael 'tîm cryf, cynaliadwy'; • Clybiau'n cydweithio er mwyn sicrhau arbedion maint a ddefnydd gwell o gyfleusterau; • Cysylltiadau agos rhwng awdurdodau lleol, cyfleusterau hamdden a chlybiau; • Amgylchedd sy'n croesawu grwpiau anodd eu cyrraedd.
YR AGENDA ADDYSG	• Rhan hanfodol o chwaraeon cymunedol; • Plant yn datblygu eu sgiliau, drwy gyfrwng dull aml-sgiliau o weithredu, ar gyfer oes mewn chwaraeon; • Llythrennedd corfforol yn cael yr un statws â llythrennedd a rhifedd; • Cyflwyno 2 awr o AG o safon uchel i bob plentyn bob wythnos; • Ystod eang o gyfleoedd ar safleoedd ysgol i alluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn 3 awr o chwaraeon ysgol a / neu gymunedol; • Hybu grym chwaraeon drwy lygaid yr athro. Yr effaith ar y disgybl: gwella perfformiad academaidd, penderfyniad, dyfalbarhad, ffocws, gallu i ganolbwyntio, ymrwymiad, gwaith tîm, dysgu annibynnol, hunanhyder, sgiliau arwain a chyflogadwyedd; • Chwaraeon gyda ffocws ar y disgybl, disgyblion yn cael lleisio eu barn, strwythur cymorth, datblygu a chyflwyno chwaraeon yn eu hysgolion; • Gwerthfawrogiad y gall chwaraeon weddnewid bywydau pobl ifanc a bod yn adnodd i ailgynnwys disgyblion sydd wedi ymddieithrio a'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio; • Cynyddu'r cydweithredu â'r sector AB ac AU er mwyn rhoi hwb i'r gweithlu chwaraeon; • Cynnig cyfleoedd chwaraeon cymunedol ar gyfer pobl ifanc; • Galluogi disgyblion ifanc talentog i gyrraedd eu llawn botensial drwy eu cyfeirio at gyfleoedd a llwybrau priodol ar gyfer rhagor o gefnogaeth; • Defnyddio cymaint ag y bo modd ar adnoddau a chyfleusterau ysgolion ac AB ac AU, er mwyn ffurfio partneriaethau cymunedol.
GWEITHLU SY'N PERFFORMIO'N DDA	• Rhaid i gynllunio olyniaeth ddatblygu i fod yn gryfder y sector; • Cydweithio er mwyn datgan cyfleoedd ar gyfer gwella perfformiad pobl yn y sector; • Buddsoddi mewn mwy o bobl yn y cyfnodau cynharaf; • Datblygu sgiliau'r arweinwyr chwaraeon presennol, ond hefyd y rhai sydd ag angerdd, gallu a photensial i fod yn hynod ddylanwadol yn y swyddogaethau chwaraeon a geir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; • Adlewyrchu cymdeithas wrth arwain – ymgyrch gadarnhaol i ddatblygu merched, unigolion anabl a DLlE mewn chwaraeon, er mwyn cyfoethogi'r gymysgedd o arweinwyr yn y dyfodol o ran amrywiaeth ac ansawdd; • Dyblu nifer y gwirfoddolwyr a'r hyfforddwyr sy'n gweithio'n lleol ac yn rhanbarthol ledled Cymru – newid mawr yn sut rydym yn recriwtio, datblygu, defnyddio a dal gafael ar y gweithlu;

	• Ymatebol i anghenion a ffyrdd o fyw y cyfranogwyr; • Pob athro'n cael ei hyfforddi i gyflwyno AG o safon uchel; • Hyfforddwyr yn cyflwyno cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar blant; • Pob aelod o staff mewn Canolfannau Hamdden yn sicrhau hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni datblygu chwaraeon; • Datblygu cyfleoedd arwain ym mhob clwb chwaraeon ledled Cymru; • Cefnogi datblygiad gweinyddiaeth chwaraeon ar lefel ranbarthol a lefel clwb; • Annog a chroesawu technoleg fel cyfrwng i recriwtio a dal gafael ar aelodau mewn clybiau; • Sicrhau, cystal ag y bo modd, ein bod ni'n hyfforddi ac yn datblygu'r bobl briodol yn barhaus, gan ddefnyddio eu hegni i sicrhau'r canlyniadau gorau; • Ymgorffori diwylliant o reoli perfformiad, lle mae pobl yn cael eu herio a'u cefnogi i wella eu perfformiad; • Datblygu cynlluniau gweithlu i ddiffinio beth sydd ei angen, ble mae dod o hyd i bobl a sut i'w datblygu a'u defnyddio; • Pobl yn teimlo dyletswydd; cydnabod yn llawn y rôl sydd ganddynt i'w chwarae mewn chwaraeon – eu cyfraniad a'u heffaith. Er enghraifft, dylai perfformiad gwirfoddolwr, hyfforddwr, rheolwr a swyddog datblygu chwaraeon fod yn ychwanegu gwerth ym mhob achos.
CYFLEUSTERAU ADDAS I BWRPAS	• Sbardunir gan anghenion chwaraeon ar lefel ranbarthol a lleol, gyda'r agenda gydweithredu'n cael lle canolog; • Tymor hir, yn rhoi sylw i gyfleusterau dan do ac awyr agored ac yn gysylltiedig â'r cynllun cymunedol ac yn ystyried llwybrau trafnidiaeth cynaliadwy; • Rhaglennu sy'n darparu ar gyfer anghenion grwpiau anodd eu cyrraedd, cymunedau DLlE, merched a genethod; • Pob canolfan hamdden a chyfleuster chwaraeon mewn ysgolion yn gweithredu fel canolfannau datblygu chwaraeon; • Chwaraeon yn cydweithio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau posibl o gyfleusterau; • Mentrau adeiladu o'r newydd yn ystyried newidiadau mewn technoleg a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig ag arwynebau a chynlluniau adeiladu newydd a blaengar, fel bod yr adeilad yn addas ar gyfer y tymor hwy; • Partneriaid yn gweithredu'n rhagweithiol i annog trafod cynnar rhwng partneriaid posibl wrth ystyried cyfleusterau newydd, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn seiliedig ar anghenion cymunedol eang; • Cydweithredu didwyll – rhwng adrannau ALl – addysg, hamdden, ieuenctid a'r bwrdd iechyd lleol – ynghyd â chynrychiolwyr eraill perthnasol, o'r corff rheoli cenedlaethol neu'r gymdeithas ranbarthol a'r grwpiau gwirfoddol lleol allweddol; • Cwestiynu'r defnydd presennol o gyfleusterau ysgolion: a ellid eu hwyluso, eu cynllunio a'u rhaglennu'n well;

	• Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gymunedau sicrhau perchnogaeth cyfleusterau chwaraeon lleol; • Chwaraeon Cymru yn chwarae rôl fel man gwybodaeth canolog ynghylch datblygiadau newydd, gan helpu i sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn ymwybodol o ddatblygiadau posibl mewn perthynas â chyfleusterau.

TABL 1

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 5):

1. Ai'r rhain yw'r blaenoriaethau priodol i ganolbwyntio arnynt?
2. A oes unrhyw broblemau neu feysydd penodol sy'n haeddu ffocws arbennig?
3. Pa amodau a/neu adnoddau sydd angen ystyriaeth arbennig os ydym ni am ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn?

DRAFT

6. Ymrwymiadau Chwaraeon Cymru:

Nod Chwaraeon Cymru yw helpu eraill i gyflawni; boed hynny drwy her fawr, hyrwyddo chwaraeon ar y lefelau uchaf mewn Llywodraeth, cefnogi prosesau meddwl a datblygu sgiliau, neu rannu'r data a'r ymchwil manwl.

Er bod gennym ni weledigaeth ar gyfer cymunedau chwaraeon ffyniannus, a dealltwriaeth ddeallus o'r elfennau allweddol, mae sut gallwn ni wneud i hyn ddigwydd, ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ein partneriaid ni.

Mae Chwaraeon Cymru yn ymroi i gymryd cyfres o gamau gweithredu wrth iddo weithio tuag at gyflawni ei weledigaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol:

YMRWYMIADAU CHWARAEON CYMRU	
TARGEDAU CYFRANOGIAD NEWYDD	*Plant a phobl ifanc oedran ysgol:* **5 sesiwn chwaraeon yr wythnos, a ddarperir mewn sefyllfaoedd cwricwlaidd, allgyrsiol a chymunedol ehangach** *Oedolion Ifanc (16-24 oed):* **3 sesiwn chwaraeon yr wythnos** *Oedolion:* **3 sesiwn chwaraeon yr wythnos** *Gwirfoddoli*: **10% o boblogaeth Cymru (5% ar hyn o bryd)**
MYND I'R AFAEL Â THLODI PLANT	**Gan weithio gyda partneriaid, yn rhai traddodiadol ac eraill, bydd Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod chwaraeon yn chwarae eu rhan mewn dileu tlodi plant, gan ddod yn rhan fwy cynhenid o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni hyn.** Bydd Chwaraeon Cymru'n mesur hyn yn unol â'r canlynol: - cynyddu cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, gan gyfrannu at ein dyhead ehangach o gael pob plentyn a pherson ifanc i wirioni ar chwaraeon am oes - cynyddu gwirfoddoli ymhlith oedolion sy'n perthyn i'r graddau cymdeithasol is, gan gyfrannu at darged Chwaraeon Cymru o gael 10% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru i wirfoddoli mewn chwaraeon erbyn 2016 - gosod chwaraeon fel partner allweddol yn yr ymdrech i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, gyda thargedau tlodi a chyfranogiad yn cael eu rhannu gan y partneriaid. Yn benodol, bydd Chwaraeon Cymru yn cyflawni'r canlynol: - darparu sylfaen o dystiolaeth i bartneriaid - herio a chefnogi ein partneriaid i fynd ati i sicrhau eu bod yn

	cyfrannu i'r eithaf at fynd i'r afael â thlodi plant - darparu hyfforddiant a chefnogaeth i'n staff ac i'r sector yn ehangach - sicrhau cymaint o botensial ag y bo modd i gyflawni llwyddiant elitaidd - cynyddu'r gweithlu chwaraeon
DEFNYDD EFFEITHIOL O'R GWEITHLU	**Bydd Chwaraeon Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod y tirlun presennol yn addas i bwrpas.** Yn yr hinsawdd sydd ohoni heddiw, mae'r angen am fod yn effeithlon a sicrhau darpariaeth effeithiol, heb gyfaddawdu ansawdd a chyfleoedd, yn hollbwysig. Mae'n rhaid i ni sicrhau cystal ag y gallwn ni bod gennym ni'r bobl briodol a'u bod yn cael eu hyfforddi a'u datblygu'n barhaus, gan ddefnyddio eu hegni i sicrhau'r canlyniadau gorau. Mae'n rhaid ymgorffori diwylliant o reoli perfformiad yn y sector, lle mae pobl yn cael eu herio a'u cefnogi i wella eu perfformiad. Amcan rheoli perfformiad yw sefydlu diwylliant o berfformio'n well, lle mae unigolion a thimau'n derbyn cyfrifoldeb am wella perfformiad trefniadaethol yn barhaus, yn erbyn nodau a dulliau o fesur sydd wedi'u diffinio'n glir. Dylid datblygu'r ymdeimlad o ddyletswydd ymhellach, er mwyn pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan bawb i'w chwarae mewn chwaraeon. Dylai perfformiad gwirfoddolwyr, hyfforddwyr a rheolwyr a swyddogion datblygu chwaraeon fod yn ychwanegu gwerth ym mhob achos.
GWNEUD BUDDSODDIADAU DEALLUS	**Bydd Chwaraeon Cymru yn buddsoddi mewn partneriaid sy'n gallu dangos uchelgais clir, dyhead i ehangu a gwir ymrwymiad i benderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth.** Trwy wneud hynny, byddwn yn mynd ati i gymryd risgiau gofalus wrth gyllido cyflwynwyr; gan wobrwyo blaengaredd os yw'n cyd-fynd yn glir â'n gweledigaeth ni ar gyfer chwaraeon cymunedol. Rydym ni eisiau gweld mwy o endidau preifat a gwirfoddol yn chwarae mwy o ran yn y byd chwaraeon yng Nghymru. Byddwn hefyd yn arddangos y prosiectau neu'r mentrau y mae Chwaraeon Cymru wedi'u cyllido, er mwyn tynnu sylw at y math o ddulliau a'r camau gweithredu y mae am eu gweld yn amlwg ledled Cymru. Byddwn yn targedu mwy o fuddsoddiad mewn grwpiau anodd eu cyrraedd. I gymryd lle'r cyllid cyffredinol daw dulliau o fuddsoddi ein harian a sbardunir gan ganlyniadau ac sy'n canolbwyntio arnynt.
GWEITHIO GYDA'R RHAI SY'N YMRODDEDIG I GRYFHAU	**Bydd Chwaraeon Cymru yn cefnogi partneriaid i sefydlu strwythurau lleol sy'n diwallu anghenion y cyfranogwyr lleol, ac anghenion**

CHWARAEON LLEOL	**datblygu chwaraeon.** Mae ein gweledigaeth ar gyfer chwaraeon cymunedol yn credu bod rhaid wrth ymrwymiad hanfodol gan gyrff rheoli ac awdurdodau lleol i'r agenda hon. Mae Chwaraeon Cymru yn rhagweld y bydd rôl bwysicach yn cael ei chwarae gan sefydliadau'r sector masnachol a gwirfoddol, datganoli CRhC i gefnogi mwy o gyflwyno rhanbarthol a lleol a chydweithredu rhwng ALl a CRhC nid dim ond i gyflwyno'r ddarpariaeth fwyaf sylfaenol.
ADNABOD A DATBLYGU TALENT YN Y GWEITHLU CHWARAEON	**Bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu ei raglen hyfforddi a datblygu bresennol.** Ar hyn o bryd, mae'n cael ei chynnig ar sail rhaglen (e.e. 5x60). Bydd yr adolygiad yn arwain at raglen fwy holistig, lle bydd sgiliau a datblygiad gwybodaeth pobl yn gyson ac yn seiliedig ar gyflawni un canlyniad clir: ymgorffori arweiniad cryf ac effeithiol ledled y sector chwaraeon. Rydym yn disgwyl i'n partneriaid groesawu'r angen am y dull hwn o weithio, ymroi ei weithlu i elwa o'r rhaglen hon a chymryd camau rhagweithiol i gau'r bwlch cydraddoldeb
BUDDSODDI'N STRATEGOL YN Y SEILWAITH CHWARAEON	**Bydd Chwaraeon Cymru yn buddsoddi mewn seilwaith seiliedig ar dystiolaeth o bartneriaethau integredig gwirioneddol neu arfaethedig ar lefel leol neu ranbarthol. Byddwn hefyd yn hybu ein cyfraniad fel ymgynghorai statudol ar gyfer unrhyw gyfleuster dan do neu awyr agored sydd i'w ddatblygu, nid dim ond caeau chwarae.**
ARDDANGOS	**Bydd Chwaraeon Cymru yn datblygu bas data ar-lein i gynnwys enghreifftiau o arferion gorau, i'w rhannu gyda phartneriaid.** Mae rhannu arferion gorau wedi bod o gymorth gyda dylanwadu ar waith cyflwyno lleol i ryw raddau, ond nid yw hybu'r dysgu hwn ar y cyd, na defnyddio blaengaredd neu ddulliau gweithredu a welir mewn un camp neu faes mewn un arall, yn cael ei wneud yn systematig.
ARCHWILIO CYNNYDD YN ERBYN DULLIAU ALLWEDDOL O FESUR	**Bydd Chwaraeon Cymru yn defnyddio 6 mesur allweddol er mwyn asesu cynnydd y sector yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod:** • *plant yn gwneud 5 sesiwn o chwaraeon mewn wythnos;* • *oedolion sy'n gwneud 3 sesiwn o chwaraeon yr wythnos;* • *aelodaeth o glybiau;* • *cyfranogiad allgyrsiol;* • *cyfranogiad oedolion 16-24 oed;* • *cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3 yn yr ysgol;* • *nifer yr oedolion sy'n gwirfoddoli yng Nghymru.*
BLAENORIAETHU CYNLLUNIO TYMOR HIR	Bydd uwch reolwyr Chwaraeon Cymru yn ymroi i gynnal cyfres o drafodaethau amserol yn seiliedig ar y materion a ragdybir fel rhai arwyddocaol i chwaraeon yng Nghymru. Byddant yn rhannu'r

	gwaith gyda phartneriaid mewn cynhadledd chwaraeon flynyddol.

TABL 2

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 6):

1. Ai'r rhain yw'r pethau mawr y dylai Chwaraeon Cymru fod yn eu cyflawni yn ystod yr 8 mlynedd nesaf?
2. A oes unrhyw ymrwymiadau penodol sy'n haeddu ffocws arbennig?
3. Pa amodau a/neu adnoddau sydd angen ystyriaeth arbennig os ydym ni am ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn?

DRAFT

7. Mynd i'r Afael â Thlodi Plant a Hybu Cydraddoldeb drwy Chwaraeon Cymunedol

Ein gwaith craidd ni yw sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon a, lle bo hynny'n briodol, yn cael cefnogaeth i ragori.

Rydym yn credu mai'r hyn sy'n bwysig i ni yn y lle cyntaf yw sicrhau bod y sector chwaraeon cyfan (yn enwedig awdurdodau lleol a chyrff rheoli), yn ymroi i fynd i'r afael â thlodi plant, gan weithio i sicrhau nad oes unrhyw blentyn na theulu'n methu sicrhau cyfleoedd chwaraeon am eu bod nhw'n byw mewn tlodi. Yng ngoleuni hyn, ein prif ffocws ni ar gyfer y strategaeth hon fydd cyflawni yn erbyn canlyniad (j) yn yr 13 Nod Eang:

> *(j) Lleihau anghydraddoldeb mewn cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant (cyn belled ag y bo hynny'n angenrheidiol i sicrhau lles eu plant)*

Mae'r data o'n harolygon yn dynodi bod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig nid yn unig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon ond hefyd yn llai tebygol o wirfoddoli mewn chwaraeon:

Arolwg Chwaraeon Cymru ar Oedolion Egnïol 2008-09

	Gradd gymdeithasol unigolion					
Unrhyw gyfranogiad yn ystod y pedair wythnos blaenorol (%)	**A**	**B**	**C1**	**C2**	**D**	**E**
Unrhyw gyfranogiad	77.7	71.9	63.7	56.5	53.1	34.9
Unrhyw wirfoddoli mewn chwaraeon (%)	**A**	**B**	**C1**	**C2**	**D**	**E**
Unrhyw wirfoddoli mewn chwaraeon	15.3	8.7	5.6	4.2	2.6	2.7

Nid ydym yn derbyn bod y ffigurau cyfranogiad is hyn yn anochel ac rydym yn ymroddedig i barhau â'n gwaith gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwaraeon ar gael i bawb ac yn cael eu hannog yn frwd fel rhan o brofiadau bywyd ehangach.

Rydym yn cefnogi'n gryf y farn y dylai tlodi gael ei ystyried nid yn unig mewn termau economaidd ond hefyd ein bod ni'n rhoi sylw i dlodi o ran cyfleoedd ac o ran dyheadau.

YMRWYMIADAU TLODI PLANT A CHYDRADDOLDEB CHWARAEON CYMRU	
DARPARU'R SYLFAEN DYSTIOLAETH I BARTNERIAID	• Sicrhau bod y data rydym ni'n ei gasglu yn ein harolygon cenedlaethol ar oedolion, plant a phobl ifanc yn darparu sail ystadegol gadarn ar gyfer dangos tystiolaeth o lefelau cyfranogiad mewn cymunedau difreintiedig. • Dwyn gwaith ymchwil at ei gilydd er mwyn edrych ar y rhwystrau sy'n atal cyfranogiad mewn cymunedau difreintiedig a pha amodau sy'n angenrheidiol er mwyn cynyddu cyfranogiad o'r cymunedau hyn, i helpu ein partneriaid i ddeall gwahanol ddulliau gweithredu. • Blaenoriaethu'r gwaith o ddosbarthu arferion gorau perthnasol i gynyddu cyfleoedd a chyfranogiad mewn cymunedau difreintiedig, fel rhan o rôl ehangach Chwaraeon Cymru mewn darparu i bartneriaid sylfaen o dystiolaeth ar gyfer datblygu chwaraeon.
HERIO A CHEFNOGI EIN PARTNERIAID I SICRHAU EU BOD YN CYFRANNU I'R EITHAF AT FYND I'R AFAEL Â THLODI PLANT	• Herio a gweithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a chyrff rheoli er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi plant yn thema greiddiol yn ein gwaith cynllunio ar y cyd, gan adlewyrchu unrhyw gynlluniau tlodi plant lleol sydd yn eu lle eisoes. • Datgan a blaenoriaethu gyda phartneriaid lleol, yn rhai statudol, gwirfoddol a phreifat, y dulliau gweithredu sy'n gweithio mewn cymunedau difreintiedig, er mwyn sicrhau'r budd gorau o chwaraeon i fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y cymunedau hynny.
DARPARU HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH I'N STAFF NI AC I'R SECTOR EHANGACH	• Darparu hyfforddiant i ddechrau i holl Uwch Swyddogion Chwaraeon Cymru sy'n gweithio gyda phartneriaid ar dlodi plant, dyletswydd Chwaraeon Cymru a gweld sut gallwn ni herio a chefnogi ein partneriaid i sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan chwaraeon. Gellir sicrhau bod yr hyfforddiant hwn ar gael i bartneriaid wedyn, fel y bo'n briodol ac yn angenrheidiol.
GWNEUD YN FAWR O'R POTENSIAL I GYFLAWNI LLWYDDIANT ELITAIDD	• Gweithio gyda'n cyrff rheoli er mwyn sicrhau nad yw byw mewn tlodi yn rhwystr i dalent ac i ddatblygu'r dalent honno, gan gynnwys edrych ar leoliad academïau talent a mynediad i hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
SICRHAU TWF YN Y GWEITHLU CHWARAEON	• Gweithio gyda'n partneriaid i'w hannog hwy i ddatblygu strategaethau gwirfoddoli sy'n edrych y tu hwnt i recriwtio traddodiadol a thuag at bartneriaethau newydd sy'n gallu darparu sgiliau newydd i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, a hefyd gwella'r cyfleoedd am waith yn y dyfodol.
CROESAWU	• Sefydliad sy'n amrywiol a lle mae'r gweithlu'n teimlo ei fod yn cael ei

CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH YN CHWARAEON CYMRU A THRWY GYFRWNG EIN POLISÏAU A'N HARFERION	werthfawrogi a'i drin yn deg, a lle mae effaith cyfleoedd cyfartal yn cael ei gydnabod gan y staff ac yn rhan gwbl greiddiol o bob polisi.
DATBLYGU NODAU CYDRADDOLDEB ALLWEDDOL AR GYFER CYNLLUN CYDRADDOLDEB UNIGOL	• Datblygu a gweithredu gwaith i gyflwyno cyfle cyfartal ar gyfer y 9 nodwedd a warchodir a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd a chred; rhywedd; tueddiad rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

TABL 3

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 7):

1. A yw'r rhain yn cynnwys yn ddigonol ddyletswyddau Chwaraeon Cymru mewn perthynas â thlodi plant a chydraddoldeb?
2. A oes unrhyw ymrwymiadau penodol sy'n haeddu ffocws arbennig?
3. Pa amodau a/neu adnoddau sydd angen ystyriaeth arbennig os ydym ni am ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn?

DRAFT

8. Adnoddau i Helpu gyda Thwf mewn Chwaraeon Cymunedol

Mae gennym ni nifer o adnoddau sydd yn eu lle eisoes ac wedi'u cyflwyno o'r newydd i helpu pobl i feddwl yn wahanol a herio'r ffocws presennol, gan gynllunio gydag uchelgais ac eglurder a mesur yn briodol. Mae Chwaraeon Cymru yn ymroddedig i wneud gwelliannau mawr i'r ffordd y mae'n dosbarthu data; gwelliannau a fydd yn galluogi i bartneriaid ddeall yn hawdd yr hyn a ddysgir ac a welir, gan defnyddio'r rhain yn eu gwaith.

Dylid defnyddio adnoddau Chwaraeon Cymru ar y cyd â data sy'n eiddo i bartneriaid fel bod modd creu gwybodaeth gadarn am y gamp neu'r tirlun chwaraeon lleol. Nod yr adnoddau a ganlyn yw ategu unrhyw wybodaeth arall sy'n bodoli.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

1. Adnodd y Llwybr
2. Segmentu
3. Arolygon Poblogaeth

ADNODD Y LLWYBR:

Amlinellodd y *Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru* Lwybr Chwaraeon (gweler isod). Mae hwn yn cael ei ddefnyddio yn awr gan Chwaraeon Cymru fel adnodd datblygu chwaraeon, a gefnogir gan *Ffactorau Parodrwydd* (gweler tabl 4 isod) wrth iddo geisio cynghori, arwain a herio partneriaid mewn perthynas â materion fel lefelau a phatrymau cyfranogiad, galw vs cyflenwad, materion gweithlu a chyfleusterau, a hefyd cynllunio i ddatblygu'r gamp, annog lefelau cyfranogiad uwch a/neu ddatblygu talent athletwyr a thimau ymhellach.

DRAFT



Yn fyr, mae'n adnodd i helpu gyda mesur ble rydym ni, ble mae'r bylchau a pha agweddau ar y Llwybr sydd angen ffocws arbennig.

Mae Adnodd y Llwybr yn helpu gyda'r canlynol:

- Cynnig manylion clir am bob elfen sydd angen sylw;
- Caniatáu i ni fapio'r ddarpariaeth bresennol;
- Caniatáu i ni ganfod bylchau a sbarduno sgyrsiau am atebion posibl;
- Hwyluso cynllunio effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Helpu i annog adolygu neu ailystyried y dull traddodiadol o neilltuo adnoddau;
- Helpu fel sail i 'fuddsoddiadau deallusol', h.y. neilltuo adnoddau i fannau lle mae'r budd neu'r effaith yn debygol o fod yn fawr.

Mae Chwaraeon Cymru yn ymroddedig i ddefnyddio'r Adnodd i gyflawni'r canlynol:

- Canfod bylchau a sbarduno sgyrsiau am ffyrdd o gau'r bylchau;
- Targedu adnoddau;
- Cynyddu lefelau'r cyfranogiad mewn chwaraeon;
- Denu a dal gafael ar wirfoddolwyr a staff cyflogedig mewn chwaraeon;
- Gwella perfformiadau a llwyddiannau athletwyr a thimau;
- Datgan a gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein huchelgais ac a all wneud y gwahaniaeth mwyaf;

DRAFT

- Seilio penderfyniadau ar ddata ac ymchwil manwl (tystiolaeth);
- Cefnogi partneriaid yn effeithiol i ganolbwyntio ar elfennau priodol o'r llwybr.

Bydd yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel adnodd craidd gan staff Chwaraeon Cymru a byddwn yn gweld defnydd eang ohono ledled y sector chwaraeon.

Bydd yr Adnodd yn helpu i asesu ble mae camp, awdurdod lleol neu glwb lleol o ran ei gynnig. Bydd rhai'n gallu dangos tystioaleth bod llwybr di-dor a llawn yn ei le. Bydd rhai'n gallu dangos tystiolaeth o gynnig cryf mewn un neu fwy o elfennau'r llwybr, ac y dylid canolbwyntio adnoddau ychwanegol ar y meysydd hyn yn unig. Bydd rhai'n datgan gwendidau oddi mewn a all gael eu hystyried fel elfennau hanfodol bwysig ar gyfer y gamp honno neu'r awdurdod neu'r clwb hwnnw, er enghraifft, darparu cyfleoedd cystadleuol.

Defnyddio'r Adnodd i Gynnal Asesiad Eang:

Gall y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a/neu gyflwyno chwaraeon ddefnyddio'r *Cwestiynau Allweddol* i helpu i fesur y sefyllfa bresennol; boed o ran camp, awdurdod, clwb neu unrhyw fenter arall. Bydd rhai cwestiynau'n fwy perthnasol nag eraill, ond bydd pob un o'r 9 ffactor yn arwyddocaol i bob partner eu hystyried:

DRAFT

CWESTIYNAU ALLWEDDOL	
Galw	A oes gostyngiad sydd wedi'i brofi mewn cyfranogiad rhwng yr ysgol a'r gymuned? A oes rhestri aros? Pa dwf a welwyd eisoes? Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym o ran galw tebygol?
Uchelgais Deallus	A yw'r sefydliad yn glir ynghylch y twf mae'n dymuno ei weld? A yw'r uchelgais yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth? A yw'n cael ei gefnogi gan gynlluniau clir ar gyfer sut i gyflawni'r twf hwn?
Seilwaith	A oes digon o gyfleusterau, cystadlaethau a chynghreiriau i sicrhau'r twf arfaethedig? Os na, pa mor hawdd y gellid gwireddu'r rhain? A oes unrhyw gynlluniau yn eu lle i ddatblygu hyn?
Gallu Pobl	A oes digon o bobl (gweinyddwyr, swyddogion, hyfforddwyr, personél clybiau ac ati) yn gysylltiedig i fodloni'r galw cynyddol? Os na, a oes cynlluniau yn eu lle i'w creu, a phobl sy'n gallu cyflwyno'r cynlluniau hyn? A yw pobl yn glir ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol?
Gwaith Partneriaeth	A oes tystiolaeth o bartneriaid eraill yn fodlon cefnogi'r gweithredu arfaethedig? A yw pob partner yn glir ynghylch eu swyddogaethau unigol? A yw pob partneriaeth bosibl wedi'i hystyried?
Angen Lleol a Chenedlaethol	A all y sefydliad gyflawni canlyniadau ar lefel cyfranogiad, perfformiad a rhagoriaeth? A oes cyfatebiaeth rhwng y rhain?
Blaengaredd	A yw'r gamp wedi ystyried sut mae'n rhaid iddi addasu fformat, rheolau, lleoliadau a seilwaith er mwyn annog chwarae gan fwy o bobl?
Y Cyfranogwyr yn Prynu i Mewn	A gefnogir yr uchelgais gan glybiau? A ydynt yn 'prynu i mewn' i'r newidiadau sydd eu hangen a'r rôl y mae disgwyl iddynt ei chwarae? Pa ymgynghoriad neu ffurfiau eraill ar gymryd rhan sydd wedi digwydd?
Grwpiau a Dangynrychiolir	Pa waith sydd ar droed neu yn yr arfaeth er mwyn sicrhau cyfranogiad gan y grwpiau hyn?

TABL 4

Defnyddio Segmentau'r Adnodd i Archwilio Ymhellach:

I helpu pobl i feddwl, rydym ni wedi gosod rhai cwestiynau allweddol o dan rai o segmentau'r llwybr. Nod y rhain yw helpu staff Chwaraeon Cymru a'r partneriaid i ddeall y sefyllfa bresennol yn well, canfod gwendidau neu fylchau a sicrhau sail ar gyfer cynllunio da a strategol.

Sgiliau Sylfaenol

Cwestiynau i'w hystyried:

Cyfleoedd	A oes digon o gyfleoedd i blant brofi amrywiaeth eang o chwaraeon, yn enwedig yn arbennig cyn yr ysgol uwchradd ? Beth am gyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg?
Amrywiaeth	A yw plant yn cael eu hannog i chwarae mewn amrywiaeth o safleoedd ac ysgwyddo swyddogaethau amrywiol?
Amgylchedd Aml-Chwaraeon ac Aml-Sgiliau	A ydych chi'n gweithio gydag eraill i ddarparu amgylcheddau aml-chwaraeon ar gyfer plant? A ydych chi'n creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu aml-sgiliau?
Cydweithredu	A yw darparwyr cymunedol eraill (mentrau preifat, y sector cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol) yn cydweithio er mwyn sicrhau lefel dda a safonol o gyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc?
Llythrennedd Corfforol	A yw llythrennedd corfforol yn cael ei drin gyda'r un lefel o bwysigrwydd â rhifedd a llythrennedd? A yw'r asesiad o lefelau cyrhaeddiad mewn AG ar ddiwedd CA2 yn orfodol, yn union fel ag y mae mewn Mathemateg a Saesneg?
DPP Athrawon	Faint o flaenoriaeth a roddir i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr athrawon mewn AG?

TABL 5

Cyfranogiad

Cwestiynau i'w hystyried:

Hyd y Chwarae	A ellir ystyried fersiwn byrrach o'r gêm?
Pellter Teithio	A oes ffordd i sicrhau bod mwy o chwarae ar gael yn lleol?
Rheoleidd-dra/ Amledd y Presenoldeb	A oes modd addasu strwythur timau/cynghrair fel bod lefel yr ymrwymiad sydd ei angen yn is?
Ymrwymiadau Teuluol	A oes modd cynnig chwaraeon fel bod y teulu i gyd yn gallu chwarae?
Gemau Wedi'u Haddasu	A oes modd addasu chwaraeon i fod yn fwy atyniadol i fwy o bobl? Gallai hyn ymwneud â gofynion corfforol y gêm (e.e. pa mor arw ydyw a faint o gyswllt sydd ynddi) neu lefel y sgiliau technegol y mae eu hangen.

	A ydym ni'n chwilio am aelodau newydd i chwarae gemau fel y rhain, yn enwedig o adrannau newydd o'r boblogaeth e.e. merched yn dychwelyd at chwaraeon, annog oedolion a gyfeirir gan feddyg teulu, mynd i'r afael â 'mathau' o grwpiau sy'n rhoi'r gorau i chwaraeon unwaith maent wedi gadael yr ysgol. A ydym ni'n ehangu 'teulu' ein chwaraeon / cymuned?
Gwell Strwythurau Cystadlu a Chynnig Hamdden	A yw'r strwythurau'n caniatáu i bobl o safon debyg chwarae gyda'i gilydd? A oes cynnydd clir o gystadlu yn lleol i safonau uwch wrth gystadlu? Pa ddarpariaethau sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch hamdden mwy anffurfiol?

TABL 6

Gweithlu

Cwestiynau i'w hystyried:

Recriwtio	Sut ydych chi'n recriwtio hyfforddwyr a / neu wirfoddolwyr ar hyn o bryd? A yw'n broses ragweithiol, ffurfiol? A ydym ni wir wedi meddwl yn ofalus am faint o hyfforddwyr a gwirfoddolwyr rydym ni eu hangen (yn ychwanegol at y 'cylch' arferol a'r gwastraffu naturiol sydd wrth i hyfforddwyr ymddeol) i'w hyfforddi o'r newydd er mwyn sicrhau'r amcanion twf rydym ni'n eu dymuno ar gyfer ein chwaraeon neu ein cymuned? A yw ein pobl ni'n cyrraedd safon ddigonol? Ym mhob cam o'r llwybr? Pa gynlluniau sydd yn eu lle i wneud y gweithlu'n fwy amrywiol?
Datblygu	A yw'r cyrsiau a gynigir yn rhai hwylus i ddefnyddwyr wneud cais amdanynt? Unwaith maent ar y cwrs, a ydynt yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer ein bywydau prysur? A ydym ni'n mynd ati i ofyn am adborth ar hyn? A ydym ni'n annog pobl ifanc yn eu harddegau i ddilyn cyrsiau arwain sylfaenol ac yn cynnwys hyn yn eu sesiynau gwirfoddoli fel rhan o Wobr Dug Caeredin, Bagloriaeth Cymru ac ati? A ydych chi'n defnyddio arweinwyr ifanc i ymestyn y cyfleoedd yn eich clwb? Sut ydych chi'n mynd ati i gefnogi eu datblygiad? A oes gennych chi hyfforddwyr sy'n deall anghenion cynulleidfa iau (e.e. plant 4-7 oed)?
Defnyddio	A ydym ni'n dilyn hanes hyfforddwyr sydd wedi cymhwyso o'r newydd ac yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio ac yn hyderus am ddefnyddio eu cymhwyster newydd?
Dal Gafael	A ydym ni'n dilyn hanes ein hyfforddwyr presennol gyda rhyw fath o gefnogaeth neu becyn cymorth neu opsiynau DPP, fel eu bod yn fwy tebygol o ddal ati i hyfforddi? Sut ydych chi'n cydnabod cyfraniad y gwirfoddolwyr yn eich clwb? Pa gefnogaeth ydych chi'n ei darparu?

SEGMENTU

Mae Cymru yn heterogenaidd o ran ei phobl a'i lleoedd. Mae'n bwysig ein bod ni'n deall y gwahaniaethau hyn, oddi mewn i gymunedau ac ar hyd a lled y cymunedau yng Nghymru. Mae hyn yn sicr yn unol â'n galwad ni am chwaraeon a ddiffinnir yn lleol.

Gan ddefnyddio ymchwil manwl, gwybodaeth a thystiolaeth, bydd modd i ni gynllunio sut rydym ni am i'n tirlun chwaraeon ni edrych. I helpu gyda hyn, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu dau adnodd segmentu – *segmentu pobl a segmentu lleoedd.*

Mae ein hadnodd *segmentu pobl* yn ein galluogi ni i ddeall y boblogaeth o oedolion yn well o ran eu hoff weithgareddau chwaraeon, y tebygolrwydd y byddant yn gwirfoddoli mewn chwaraeon, y rhwystrau sy'n atal eu cyfranogiad a hefyd eu hymddygiad fel defnyddwyr a'u hoff ddull o gyfathrebu. I ategu hyn, mae ein hadnodd *segmentu lleoedd* yn ein galluogi ni i ddeall yn well y mathau o wardiau a geir ledled Cymru; wardiau sy'n wahanol o ran eu demograffig economaidd amrywiol a'u nodweddion chwaraeon. O ddefnyddio'r adnoddau segmentu hyn gyda'i gilydd, gellir galluogi penderfyniadau strategol a thactegol am *bwy* i'w targedu, *ble* i dargedu a *sut* mae targedu, fel ein bod ni'n gallu datblygu cymunedau chwaraeon ffyniannus ar hyd a lled Cymru.

Mae'r adnodd wedi cael ei ddefnyddio gan bartneriaid i helpu gyda'r canlynol:

- siapio penderfyniadau polisi (cynllunio i weithredu, dadansoddi dalgylchoedd, proffilio aelodaeth a gwerthuso prosiectau);
- defnyddio ymchwil manwl mewn perthynas â daearyddiaeth;
- sbarduno dulliau marchnata (pwy i'w targedu, beth i'w gynnig, y cyfryngau i'w defnyddio, naws y neges).

AROLYGON POBLOGAETH

Mae Chwaraeon Cymru wedi cynnal arolygon ar raddfa fawr ar lefelau cyfranogiad chwaraeon poblogaeth Cymru ers mwy nag ugain mlynedd.

Mae'r data o'n harolygon ni ar *Oedolion Egnïol* a *Chwaraeon Ysgol* yn darparu sail ar gyfer monitro chwaraeon yng Nghymru yn strategol, a chofnodi tueddiadau, yn ogystal â bod yn sail i bolisïau, gwaith cynllunio ac arferion. Mae'r data hefyd yn gweithredu fel adnodd i reoli perfformiad yn effeithiol a, drwy waith ymchwil pellach, mae'n ein galluogi ni i ddatblygu ein dealltwriaeth ansoddol o gyfranogiad (neu ddiffyg cyfranogiad) mewn chwaraeon yng Nghymru.

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 8):

1. A yw'r adnoddau hyn yn darparu deunyddiau digonol i helpu gyda chynllunio, archwilio a datblygu chwaraeon?

2. A oes unrhyw anghenion hyfforddi penodol i'w hystyried er mwyn sicrhau bod pob adnodd yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan bawb sy'n gweithio yn y byd chwaraeon?

DRAFT

9. Dull o Fesur

LEDLED Y SECTOR		
Blaenoriaeth	***Canlyniad***	***Tystiolaeth***
CHWARAEON A DDIFFINNIR YN LLEOL	Y ddarpariaeth chwaraeon gymunedol yn gallu apelio at drawsdoriad eang o bobl, yn seiliedig ar ystyriaeth fanwl i ymgynghori, cydweithredu a pherfformiad, ac adlewyrchu galw'r gymuned leol	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Data'r Arolygon ar Oedolion Egnïol Aelodaeth o Glybiau Nifer y ceisiadau cyllido lleol
CLYBIAU CRYF LLAWN MENTER	Clybiau chwaraeon hyfyw yn darparu cynigion aml-chwaraeon; nodweddir gan aelodaeth gref; timau niferus; gwaith rhagorol yn recriwtio gwirfoddolwyr a strwythurau cefnogi rhagorol; cynnig cyfleoedd hamdden a chystadleuol o safon uchel ar gyfer plant ac oedolion o safonau amrywiol	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Data'r Arolygon ar Oedolion Egnïol Aelodaeth o Glybiau
YR AGENDA ADDYSG	Chwaraeon yn canolbwyntio ar ddisgyblion a myfyrwyr mewn addysg gynradd, uwchradd, bellach ac uwch; llythrennedd corfforol yn cael yr un statws â llythrennedd; defnyddio adnoddau a chyfleusterau ysgolion, AB ac AU i'r eithaf; cyfleoedd chwaraeon cystadleuol ar gyfer pobl ifanc ac adnabod a chyfeirio talent mewn ffordd effeithiol	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Arolygon ar Chwaraeon Ysgol Adroddiadau Estyn
GWEITHLU SY'N PERFFORMIO'N DDA	Nodweddir y gweithlu gan ddatgan anghenion yn glir ac atebion priodol i gau'r bylchau o ran gwirfoddolwyr a hyfforddwyr; arweiniad cryf a'r arweiniad hwnnw'n adlewyrchu cymdeithas; cynllunio olyniaeth ac ymgyrch i ddyblu nifer y	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Arolygon ar Oedolion Egnïol Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid

DRAFT

	gwirfoddolwyr ar hyd a lled Cymru	
CYFLEUSTERAU ADDAS I BWRPAS	Cynllunio darpariaeth yn y tymor hir; rhaglenni sy'n darparu ar gyfer anghenion amrywiol ein cymunedau ni a defnydd eithaf o ganlyniad i gydweithredu aml-bartner	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Arolygon ar Oedolion Egnïol
PENODOL I CHWARAEON CYMRU:		
TARGEDAU CYFRANOGIAD NEWYDD	*Plant:* 5 sesiwn chwaraeon yr wythnos, yn cael eu darparu mewn sefyllfaoedd cwricwlaidd, allgyrsiol ac ehangach yn y gymuned *Oedolion Ifanc (16-24 oed):* 3 sesiwn chwaraeon yr wythnos *Oedolion*: 3 sesiwn chwaraeon yr wythnos *Gwirfoddoli*: 10% o boblogaeth Cymru (5% ar hyn o bryd)	Arolygon ar Chwaraeon Ysgol Arolygon ar Oedolion Egnïol
MYND I'R AFAEL Â THLODI PLANT	Daw tlodi plant yn elfen graidd o'r cynlluniau rydym ni'n eu datblygu gyda'r asiantaethau rydym ni'n eu cyllido, gan godi proffil y mater yn y sector a gwella'r effaith y gallwn ni ei chael gyda'n gilydd ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Arolygon ar Chwaraeon Ysgol
DEFNYDD EFFEITHLON AC EFFEITHIOL O ADNODDAU	Sector a nodweddir gan berfformiadau da a dysgu a datblygu parhaus, ac a gefnogir gan reolaeth effeithiol ar berfformiad	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid
GWNEUD BUDDSODDIADAU DEALLUS	Gwell buddsoddi mewn partneriaid sy'n gallu dangos uchelgais clir, dyhead mawr i ehangu a gwir ymrwymiad i	Natur y grantiau a ddyfernir

DRAFT

	wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth	
GWEITHIO GYDA CRhC SY'N YMRODDEDIG I DDATGANOLI CHWARAEON YN LLEOL	Mwy o dystiolaeth o gyfleoedd cynyddol yn yr ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru, o ganlyniad i strwythurau datganoledig	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Y grantiau lleol a ddyfernir
ADNABOD A DATBLYGU TALENT YN Y GWEITHLU CHWARAEON	Nodweddir y gweithlu gan arweiniad cryf ac effeithiol	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid
BUDDSODDI'N STRATEGOL YN Y SEILWAITH CHWARAEON	Gwell buddsoddi mewn seilwaith, yn seiliedig ar dystiolaeth gan bartneriaethau integredig gwirioneddol neu arfaethedig ar lefel leol a rhanbarthol	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Y grantiau cyfalaf a ddyfernir
ARDDANGOS	Yn y dyfodol, bydd y gwaith cyflwyno'n cael ei seilio fwy a mwy ar arferion gorau a dysgu oddi wrth eraill – a rennir ymhlith partneriaid; gyda chefnogaeth Chwaraeon Cymru	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid
ARCHWILIO CYNNYDD YN ERBYN DULLIAU ALLWEDDOL O FESUR	• *plant yn gwneud 5 sesiwn o chwaraeon mewn wythnos;* • *aelodaeth o glybiau;* • *cyfranogiad allgyrsiol;* • *cyfranogiad oedolion 16-24 oed;* • *cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3 yn yr ysgol;* • *nifer yr oedolion sy'n gwirfoddoli yng Nghymru*	Uwch Swyddog Chwaraeon Cymru yn Adrodd yn Ôl Adolygiadau o Fuddsoddiad Partneriaid Arolygon ar Chwaraeon Ysgol Arolygon ar Oedolion Egnïol

TABL 8

CWESTIYNAU YMGYNGHORI (adran 9):

DRAFT

1. A yw'r rhain yn glir ac yn hawdd eu mesur?
2. A oes unrhyw beth ar goll?
3. A oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau?

DRAFT